

# Twf Swyddi Cymru + Adolygiad dilynol

Gorffennaf 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

# Cynnwys **Tudalen**


**Crynodeb gweithredol** 1

**Cyflwyniad** 3

**Cefndir** 3

**Argymhellion** 6

**Effeithiolrwydd y broses atgyfeirio** 7

Atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio 7

Cofnodi a rhannu anghenion cyfranogwyr unigol 8

Cynlluniau Datblygu Unigol 9

Atgyfeiriadau uniongyrchol 9

Galw a rhestrau aros cynyddol 10

**Cyflwyno'r cwricwlwm a pharatoi ar gyfer dilyniant cyfranogwyr** 12

Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU) 12

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) 12

Elfen ymgysylltu 13

Elfen datblygu 16

Elfen gyflogaeth 17

**Profiadau cyfranogwyr** 18

Profiad cychwynnol 18

Cymorth ar gyfer angen unigol 18

Datblygiad medrau 19

Paratoi ar gyfer dilyniant 19

Gweithgareddau cyfoethogi 20

**Dulliau a sail y dystiolaeth** 21

**Geirfa** 22

Niferoedd – symiau a chyfrannau 22

**Cyfeiriadau** 23

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad ymweliad monitro cyntaf Estyn (Estyn, 2023) ac yng ngwerthusiad ffurfiannol Llywodraeth Cymru o Twf Swyddi Cymru + (Llywodraeth Cymru, 2024). Gwerthusom:

- y broses atgyfeirio a phrofiadau cyfranogwyr yn ystod y cyfnod hwn
- pa mor dda y mae cyflwyno'r cwricwlwm yn bodloni anghenion amrywiol cyfranogwyr ac yn eu paratoi i symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth

I gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, ymwelom â phob un o'r pum contractwr arweiniol, gan gynnwys 21 o bartneriaid sy'n isgontractwyr, ar draws cyfanswm o 49 o ganolfannau cyflwyno Twf Swyddi Cymru+ (TSC+) ledled Cymru. Fe wnaethom arsylwi sesiynau; siarad â chyfranogwyr; cynnal ymchwil wrth y ddesg i adolygu prosesau atgyfeirio; dadansoddi gwybodaeth perfformiad allweddol ar draws y contract a chyfarfod â chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.

Ers yr ymweliadau monitro cychwynnol, mae'r broses atgyfeirio wedi cael ei chryfhau'n sylweddol trwy gydweithio effeithiol rhwng contractwyr arweiniol, Cymru'n Gweithio a Llywodraeth Cymru. Mae dogfennau atgyfeirio diwygiedig wedi gwella'r broses o gasglu manylion angenrheidiol am anghenion unigol cyfranogwyr ac wedi helpu i leoli cyfranogwyr yn fwy cywir ar yr elfen gymorth orau. Fodd bynnag, mae'r broses ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyfranogwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi dod yn llai effeithlon, gan fod Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Llywodraeth Cymru, 2021) yn atal Cymru'n Gweithio rhag rhannu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn uniongyrchol â chontractwyr wrth atgyfeirio i'r rhaglen.

Mae'r defnydd cynyddol o atgyfeiriadau uniongyrchol wedi caniatáu i ddarparwyr nodi'r galw am y rhaglen a dechrau cyfranogwyr ynghynt. Fodd bynnag, mae'r galw cynyddol am leoedd a chyfranogwyr yn aros ar raglenni am gyfnodau hwy wedi arwain at restrau aros mewn rhai rhanbarthau, gan greu oedi yn nyddiadau dechrau cyfranogwyr a chynyddu'r risg o ymddieithrio.

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr ar raglen TSC+ ar yr elfen ymgysylltu, gyda llawer ohonynt yn dangos rhwystrau sylweddol rhag symud ymlaen ymhellach, fel pryderon iechyd meddwl a phroblemau â'u hyder. Roedd darparwyr yn cynnig cymorth lles cryf, gan gynnwys sesiynau a oedd yn canolbwyntio ar reoli gorbryder, ffyrdd iach o fyw a datblygiad personol. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cyflogi gwasanaethau cymorth, fel anogwyr gwydnwch a chwnsleriaid, yr oedd cyfranogwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn manteisio arnynt yn rheolaidd.

Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn annog dilyniant cyfranogwyr trwy elfennau'r rhaglen ac i gyflogaeth neu addysg bellach a hyfforddiant, gyda llwybrau dilyniant ac amserlenni disgwyliedig wedi'u nodi. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o gyfranogwyr ar yr elfen ymgysylltu yn gwneud y cynnydd roeddent yn gallu ei wneud oherwydd amharodrwydd i symud ymlaen i gyfleoedd lleoliadau gwaith, ac roedd yn well ganddynt aros yn y ganolfan lle'r oeddent yn teimlo'n fwy diogel o gwmpas eu ffrindiau, eu tiwtoriaid a'u hanogwyr.

Ar yr elfen Datblygu, roedd argaeledd darpariaeth sy'n benodol i'r sector yn rhy amrywiol ar draws gwahanol rannau o Gymru. Mewn rhai ardaloedd, roedd gan gyfranogwyr ystod eang o ddewis o ddarpariaeth mewn sectorau fel adeiladu, gofal a manwerthu; fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, roedd rhaglenni'n canolbwyntio ar gymwysterau cyflogadwyedd cyffredinol. O ganlyniad, ni all bob unigolyn ifanc fanteisio ar ddarpariaeth sydd wedi'i theilwra i'w dewisiadau unigol. Mewn ychydig o achosion, nid oedd gwahaniaeth rhwng yr hyn o gyflwynwyd yn yr elfennau ymgysylltu a datblygu, a oedd yn golygu nad oedd ychydig o gyfranogwyr yn glir ynghylch eu cyfleoedd dilyniant. Roedd llawer o gyfranogwyr ar yr elfen datblygu yn manteisio ar gyfleoedd lleoliad gwaith yn gyflym; fodd bynnag, roedd rhaid i ychydig ohonynt aros am leoliadau oherwydd yr heriau yr oedd darparwyr yn eu hwynebu o ran cael digon o gyfleoedd lleoliad gwaith ar draws meysydd galwedigaethol.

Roedd yr elfen gyflogaeth yn parhau i gael ei danddefnyddio, a nododd darparwyr fod gofynion cyllido rhy fiwrocrataidd a'u bod yn gallu dod o hyd i gyfleoedd cyflogaeth eraill i'r rhai sy'n barod i symud ymlaen i waith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn blaenoriaethu eu dyraniad adnoddau i fodloni'r galw am elfennau eraill y rhaglen.

Mynegodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr brofiadau cadarnhaol o'r rhaglen, gan werthfawrogi'r amgylcheddau dysgu cefnogol a'r sylw personol gan staff. Sonion nhw am lefelau uchel o gymorth bugeiliol ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ystod o weithgareddau cyfoethogi y mae darparwyr yn eu cynnig, gan ddweud eu bod yn eu helpu i fagu hyder, medrau cymdeithasol a medrau gweithio mewn tîm.

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adolygiad hwn o raglen Twf Swyddi Cymru+ (TSC+) fel dilyniant i'r canfyddiadau o ymweliadau monitro Estyn â phob un o'r rhanbarthau a gyflwynodd y rhaglen yn 2022-2023 a'i adroddiad mewnwelediadau cenedlaethol (Estyn, 2023).

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru, darparwyr TSC+, Cymru'n Gweithio / Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau partner allweddol eraill sydd â rôl mewn cefnogi pobl ifanc i symud ymlaen i TSC+ a gweithio tuag at ddeilliant cadarnhaol, sef addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth gynaledig.

## Cefndir

Mae Twf Swyddi Cymru+ (TSC+) yn rhaglen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i chynnwys yn y Warant i Bobl Ifanc (cynnig sicr o gymorth i bobl ifanc dan 25 oed yng Nghymru ennill lle mewn addysg neu hyfforddiant, dod o hyd i swydd neu ddod yn hunangyflogedig).

Mae'r rhaglen yn cynnwys hyfforddiant, datblygiad, a chymorth cyflogadwyedd unigoledig ar gyfer pobl ifanc 16–19 oed sy'n byw yng Nghymru yr aseswyd nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) amser llawn. Ei nod yw rhoi i bobl ifanc y medrau, y cymwysterau a'r profiad i gael swydd neu symud ymlaen i hyfforddiant pellach. Mae'n rhaglen hyblyg sydd wedi'i chynllunio o gwmpas y person ifanc. Amcanion allweddol y rhaglen yw lleihau nifer y bobl ifanc NACH a chynorthwyo pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gontract i rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant gyflwyno rhaglen TSC+ ar draws pedwar rhanbarth. Ym mhob rhanbarth, mae contractwyr arweiniol yn gweithio gyda phartneriaid darparwyr sy'n isgontractwyr i ddarparu rhaglenni ar draws y tair elfen. Mae'r contractwyr arweiniol rhanbarthol a phartneriaid darparwyr sy'n isgontractwyr fel a ganlyn:

| Canol De Cymru | De Ddwyrain Cymru |
|---|---|
| **Associated Community Training Ltd - contractwr arweiniol**<br>• Llamau<br>• Coleg Paratoi Milwrol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT)<br>• Tydfil Training | **Associated Community Training Ltd – contractwr arweiniol**<br>• Aspiration Training<br>• Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân (CCYP)<br>• Coleg Paratoi Milwrol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT) |

| Canol De Cymru | De Ddwyrain Cymru |
|---|---|
| **ITEC Training Solutions Ltd – contractwr arweiniol**<br>• Whitehead Ross | • Academi Ieuenctid Casnewydd<br>• People Plus<br>• Tydfil Training<br>**ITEC Training Solutions Ltd – contractwr arweiniol**<br>• Coleg QS |
| De Orllewin a Chanolbarth Cymru | Gogledd Cymru |
| **Associated Community Training Ltd - contractwr arweiniol**<br>• Educ8<br>• Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT)<br>• Inspire Training<br>• Llamau<br>• Cyngor Gwledig Llanelli (LRC)<br>• MPTC<br><br>**Consortiwm B-WBL, Coleg Sir Benfro – contractwr arweiniol**<br>• Achieve More Training (AMT)<br>• Coleg Sir Gâr<br>• Hyfforddiant HB<br>• ITeC Digital<br>• Hyfforddiant Pathways<br>• PRP Training<br>• Sgiliau a Hyfforddiant<br><br>**ITEC Training Solutions Ltd – contractwr arweiniol**<br>• Bethany Training<br>• Inspire Training<br>• LRC<br>• Gwaith yn yr arfaeth Sir Benfro | **Associated Community Training Ltd - contractwr arweiniol**<br>• Coleg Paratoi Milwrol ar gyfer Hyfforddiant (MPCT)<br><br>**Coleg Cambria – contractwr arweiniol**<br>• Parc Caia<br><br>**Grŵp Llandrillo Menai – contractwr arweiniol**<br>• Achieve More Training (AMT)<br>• COPA Training |

Caiff cyfranogwyr eu cyfeirio at raglen TSC+ gan gynghorwyr Cymru'n Gweithio, Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant neu'n cael eu recriwtio'n uniongyrchol gan y darparwyr.  Mae atgyfeiriadau'n cynnwys cynnal asesiad cychwynnol o anghenion cymorth person ifanc sy'n helpu llywio elfen briodol y rhaglen. Mae'r tair elfen fel a ganlyn:

**Ymgysylltu** – ar gyfer pobl ifanc sydd, yn ôl eu hasesiadau, yn profi rhwystrau rhag ymgysylltu mewn rhaglen astudio ar Lefel 1 ac/neu fod angen cadarnhau ffocws galwedigaethol

**Datblygu** – ar gyfer pobl ifanc sydd, yn ôl eu hasesiadau, yn gallu dilyn rhaglen astudio sy'n arwain at gymhwyster Lefel 1 neu 2 a bod ganddynt ffocws galwedigaethol

**Cyflogaeth** – cyfle swydd â chymhorthdal cyflog ar gyfer pobl ifanc sydd, yn ôl eu hasesiadau, â ffocws galwedigaethol ac yn 'barod ar gyfer gwaith'.

Bu'r adolygiad dilynol hwn o raglen TSC+ yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion o ymweliadau monitro Estyn â phob un o'r rhanbarthau a gyflwynodd y rhaglen yn 2022-2023 (Estyn, 2023). Buom hefyd yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion o'r Gwerthusiad Ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+, a gynhaliwyd gan Wavehill ar ran Llywodraeth Cymru (Allies et al, 2024). Canolbwyntiodd yr adolygiad dilynol hwn ar ddau faes allweddol y nodwyd yn y ddau adroddiad eu bod yn feysydd yr oedd angen eu mireinio a'u gwella, sef:

- Gwerthuso'r prosesau atgyfeirio a phrofiadau cyfranogwyr yn ystod y cam hwn
- Pa mor dda y mae cyflwyno'r cwricwlwm yn diwallu anghenion cyfranogwyr ac yn eu paratoi ar gyfer symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth

I lywio'r adroddiad hwn, ymwelodd y tîm prosiect â phob un o'r pum contractwr arweiniol – yn cynnwys 21 o bartneriaid sy'n isgontractwyr – ar draws cyfanswm o 49 o ganolfannau cyflwyno TSC+ ledled Cymru. Yn ystod ein hymweliadau, cafodd y tîm gyfle i:

- Arsylwi sesiynau i asesu ymgysylltiad cyfranogwyr a chyflwyno cynnwys
- Siarad â chyfranogwyr i gasglu adborth ar effeithiolrwydd ac effaith bersonol rhaglenni
- Adolygu prosesau atgyfeirio i werthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- Gwerthuso pa mor effeithiol y mae cyflwyno'r cwricwlwm yn mynd i'r afael â bylchau ym medrau cyfranogwyr
- Dadansoddi gwybodaeth perfformiad allweddol ar draws y contract, fel niferoedd y cyfranogwyr, rhaniad pob elfen o'r rhaglen a deilliannau dilyniant cadarnhaol
- Cyfarfod â chyflogwyr wrth arsylwi gweithgarwch yn cael ei gynnal yn y gweithle
- Cyfarfod â rhanddeliaid allweddol, gan gynnwys staff contractwyr, rheolwyr cyfrifon allweddol Cymru'n Gweithio a staff awdurdodau lleol; Cydlynwyr Addysg a Dilyniant yn benodol (EPCs)

Rhoddir mwy o wybodaeth am y dulliau a sail y dystiolaeth yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

# Argymhellion

**Dylai contractwyr:**

A1 Sicrhau gwahaniaeth clir rhwng y cwricwlwm ymgysylltu a datblygu, a bod pob cyfranogwr yn deall eu cyfleoedd am ddilyniant

A2 Ymestyn a chymell pob cyfranogwr i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig wrth symud ymlaen o weithgarwch mewn canolfan i leoliad gwaith, addysg a hyfforddiant pellach neu gyflogaeth pan fyddant yn barod

A3 Parhau i ddatblygu strategaethau ymgysylltu â chyflogwyr er mwyn sicrhau y gall cyfranogwyr fanteisio ar leoliadau gwaith penodol i'r sector sy'n cyd-fynd â'u dyheadau gyrfa mewn modd amserol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A4 Adolygu strwythur yr elfennau, yn enwedig effeithiolrwydd yr elfen gyflogaeth, gan ystyried elfen amgen ar gyfer cyfranogwyr sydd â'r rhwystrau mwyaf sylweddol rhag symud ymlaen

A5 Ystyried mesurau amgen heblaw cyrchfannau rhaglenni fel deilliant cadarnhaol, yn enwedig i'r rhai sydd bellaf o symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth

A6 Sicrhau bod darpariaeth dan gontract ar draws pob rhanbarth yn cynnwys dewis o ddarparwyr a dewis priodol o raglenni sy'n benodol i'r sector

A7 Ystyried sut gall methodolegau a dyraniadau cyllid fodloni'r galw cynyddol am y rhaglen orau

**Dylai pob rhanddeiliad sy'n ymwneud â chyflwyno TSC+:**

A8 Werthuso prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod contractwyr yn cael gwybodaeth amserol am gyfranogwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a Chynllun Datblygu Unigol (CDU), gan ganiatáu i'r cymorth angenrheidiol gael ei gynnig cyn gynted â phosibl

## Effeithiolrwydd y broses atgyfeirio

I ddechrau, roedd rhaglen TSC+ yn gweithredu gydag un system atgyfeirio, lle roedd yr holl atgyfeiriadau wedi'u mandadu i fod trwy Cymru'n Gweithio. Yn haf 2022, ymatebodd Llywodraeth Cymru i geisiadau darparwyr i gynyddu niferoedd y cyfranogwyr yn dilyn y rhaglen ac mae bellach yn caniatáu i atgyfeiriadau ddod trwy dri llwybr, sef atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio, atgyfeiriadau gan Gydlynwyr Addysg a Dilyniant ac atgyfeiriadau uniongyrchol.

### Atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio

Mae Cymru'n Gweithio yn parhau i gyfeirio cyfranogwyr at y rhaglen, lle mae cynghorwyr hyfforddedig yn cwblhau Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio, ac yn ei rannu gyda'r darparwr, sy'n nodi:

- Anghenion dysgu a datblygu'r person ifanc
- Unrhyw rwystrau sy'n atal y person ifanc rhag cymryd rhan mewn dysgu pellach ac/neu symud ymlaen i gyflogaeth y dylid mynd i'r afael â nhw yn rhan o'u Cynllun Dysgu Unigol (CDU)
- Yr Elfen Rhaglen TSC+ ar gyfer y person ifanc, naill ai ymgysylltu, datblygu neu gyflogaeth

Ers y gwerthusiad diwethaf (Estyn, 2023), mae'r broses atgyfeiriadau trwy Cymru'n Gweithio wedi gwella'n sylweddol. Dangosodd y dystiolaeth o'n hymweliadau â staff contractwyr a staff Cymru'n Gweithio fod eu perthynas wedi esblygu'n dda, a bod contractwyr a rheolwyr cyfrifon Cymru'n Gweithio yn cyfarfod yn rheolaidd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu feysydd i'w gwella. Mae llawer o ddarparwyr wedi datblygu perthnasoedd cryf â'u cynghorwyr lleol Cymru'n Gweithio neu Gyrfa Cymru, sydd, o ganlyniad, wedi datblygu dealltwriaeth gynyddol o'r ddarpariaeth TSC+ sydd ar gael yn yr ardal. Yn yr achosion gorau, roedd cynghorwyr gyrfaoedd yn mynychu canolfannau'n rheolaidd ac yn aml yn dod â chyfranogwyr i ganolfannau darparwyr i'w dangos o gwmpas, cyfarfod â staff allweddol a'u helpu i bontio'n esmwyth i'r rhaglen.

**Gweithio agos rhwng darparwyr a Cymru'n Gweithio**

Yn y Ganolfan ACT yng Nghaerffili, mae staff Cymru'n Gweithio yn gweithio ar y safle am ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae'r cyd-leoli wedi gwella'r berthynas a'r cydweithio, gan wneud y broses atgyfeirio yn fwy esmwyth ac yn fwy effeithiol.

Yn Aspiration Training yng Nghasnewydd, mae staff yn sicrhau bod y cyfnod pontio o'r

atgyfeirio i'r dechrau yn esmwyth ac yn cael ei atgyfnerthu gan bartneriaeth gref â Cymru'n Gweithio. Mae staff Aspiration Training yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr o'r cychwyn, sy'n rhoi ffynhonnell gyfoethocach o wybodaeth iddynt am y cyfranogwyr. Caiff disgwyliadau'r rhaglen a disgwyliadau ymddygiadol eu hamlinellu'n glir o'r dechrau gyda chyfranogwyr.

Dywedodd ychydig o bartneriaid darparwyr nad yw perthnasoedd â Cymru'n Gweithio a chynghorwyr Gyrfa Cymru yr un mor ddatblygedig, neu fod llai o adnoddau ar gyfer cynghorwyr gyrfaoedd yn y maes yn cyfyngu ar yr ymgysylltu cydweithredol. Yn yr achosion hyn, roedd atgyfeiriadau i'r rhaglen gan Cymru'n Gweithio yn gyfyngedig, ac roedd darparwyr yn fwy dibynnol ar recriwtio cyfranogwyr trwy'r llwybr atgyfeirio uniongyrchol.

At ei gilydd, mae atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio yn alinio'n dda ag anghenion cyfranogwyr, ac mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn dweud bod llawer o gywirdeb wrth leoli ar elfennau ac ychydig iawn o achlysuron lle mae angen iddynt herio penderfyniad yr adroddiad asesu ac atgyfeirio am elfen. Pan fyddai'r heriau hyn yn digwydd, roeddent bron bob amser lle roedd datblygu'n cael ei nodi fel yr elfen arfaethedig, a'r darparwr yn credu mai ymgysylltu oedd yr elfen fwyaf priodol. Roedd dealltwriaeth darparwyr o'r broses gywir ar gyfer herio yn yr achosion hyn yn anghyson, ac roedd dulliau amrywiol o newid elfennau yn cael eu mabwysiadu ar draws gwahanol gontractwyr.

Dywedodd contractwyr hefyd mai ffactor cyfrannol allweddol yn y broses atgyfeirio well oedd eu deialog barhaus effeithiol gydag arweinwyr rhaglenni Llywodraeth Cymru, sydd wedi gwrando ar eu pryderon a, thrwy gydol y cylch contractau, wedi gwneud newidiadau rhesymol i'w disgwyliadau i ganiatáu ar gyfer atgyfeiriadau mwy esmwyth.

### Cofnodi a rhannu anghenion cyfranogwyr unigol

Yn ystod camau cynnar rhaglen TSC+, fel y nodwyd yn ein hymweliadau monitro (Estyn, 2023), yn aml, nid oedd gwybodaeth sy'n cael ei derbyn gan ddarparwyr trwy ffurflenni'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio gan Cymru'n Gweithio yn cynnwys digon o fanylion i ddarparwyr ddeall diddordebau, uchelgeisiau ac anghenion cymorth person ifanc. I ymateb i hynny, mae contractwyr arweiniol wedi cydweithio â'i gilydd a gyda rheolwyr cyfrifon allweddol Cymru'n Gweithio i ddiwygio fformat ffurflen yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio y mae cynghorwyr wedi ei mabwysiadu yn ddiweddarach. Mae ffurflen ddiwygiedig yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio yn gofyn am fanylion llawer mwy penodol am y person ifanc ac wedi gwella ansawdd y wybodaeth am atgyfeirio a rennir gyda darparwyr yn sylweddol. Dywedodd staff darparwyr wrthym fod hyn yn eu helpu i ddeall cefndiroedd, dyheadau ac anghenion cymorth cyfranogwyr yn well cyn iddynt ddechrau, gan alluogi trafodaethau mwy ystyrlon am gynllunio dysgu a datblygiad yn gynharach yn

eu rhaglen. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o ddarparwyr wrthym fod anghysondeb o hyd yn ansawdd y wybodaeth sy’n dod i law yn ffurflenni’r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio, ac o ganlyniad, mewn ychydig o achosion, roedd manylion pwysig am gefndir cyfranogwyr dim ond yn dod i’r amlwg ar ôl iddynt gofrestru, gan oedi ymyriadau priodol posibl.

### Cynlluniau Datblygu Unigol

Ar ddechrau rhaglen TSC+, dywedodd darparwyr pan roedd Cymru’n Gweithio wedi nodi cyfranogwyr ag angen dysgu ychwanegol (ADY), fod unrhyw Gynllun Datblygu Unigol (CDU) presennol yn cael ei rannu fel rheol gyda chontractwyr TSC+ er mwyn gallu rhoi ymyriadau ar waith ar ddechrau eu rhaglen. Fodd bynnag, o dan arweiniad o fewn y Cod ADY (2021. Pennod 16), nid oes gan bob contractwr TSC+, ac yn benodol, y rhai nad ydynt wedi cael eu diffinio’n SAB (Sefydliad Addysg Bellach) hawl gyfreithiol i gael mynediad at CDUau. Hefyd, pan newidiodd Cynlluniau Dysgu a Sgiliau (CDSau) i’r Cynlluniau Dysgu Unigol (CDUau), ni chaniatawyd i Gyrfa Cymru rannu CDUau â chontractwyr TSC+ mwyach gan nad oedd Gyrfa Cymru wedi datblygu’r CDUau. Nid yw’r arweiniad o fewn y Cod ADY yn ddigon clir ynghylch sut dylai’r rhai sy’n manteisio ar ddarpariaeth TSC+ gael eu cynorthwyo gyda CDU na sut gellir rhannu gwybodaeth gyda chontractwyr, ac o ganlyniad, nid yw Cymru’n Gweithio yn rhannu unrhyw CDUau presennol gyda chontractwyr mwyach wrth gyfeirio person ifanc i TSC+. Gall person ifanc ddewis rhannu’r CDU gyda’i ddarparwr; fodd bynnag, mae hyn fel arfer yn golygu bod angen i ddarparwyr gysylltu ag ysgolion, awdurdodau lleol neu rieni yn uniongyrchol i gael CDUau, gan arwain at oedi wrth roi cymorth teilwredig ar waith. I liniaru hyn, mae Cymru’n Gweithio yn parhau i rannu gwybodaeth y gellid ei chofnodi ar CDU o fewn ffurflen yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio, a bydd yn aml yn copïo’r hyn y mae’n ei ystyried yw’r wybodaeth fwyaf perthnasol yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio. Fodd bynnag, dywed darparwyr fod y broses hon yn llai effeithlon nag ydoedd ar ddechrau’r rhaglen.

### Atgyfeiriadau uniongyrchol

Atgyfeiriadau uniongyrchol yw pan fydd pobl ifanc yn cael mynediad at y rhaglen yn uniongyrchol, fel arfer oherwydd eu bod yn ymateb i waith hyrwyddo neu allymestyn darparwr. Mae darparwyr wedi cryfhau cysylltiadau â phartneriaid ehangach, gan gynnwys gwasanaethau ieuenctid, Cydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant, ysgolion a cholegau, gan ehangu cyrhaeddiad eu hatgyfeiriadau uniongyrchol. Daw atgyfeiriadau hefyd trwy gysylltiad uniongyrchol gan gyfranogwyr sydd efallai wedi ymateb i hysbyseb am y rhaglen neu argymhelliad gan deulu neu ffrindiau. Ar gyfer atgyfeiriadau uniongyrchol, mae staff hyfforddedig o fewn y darparwr yn cynnal asesiad o ba elfen y dylai cyfranogwyr ddechrau arni, yn aml gan ddefnyddio’u fersiwn eu hunain o ffurflen yr Adroddiad Asesu ac

Atgyfeirio. Adeg ein hymweliadau, roedd atgyfeiriadau gan Gydlynwyr Ymgysylltu a Dilyniant wedi cael eu hymgorffori o fewn atgyfeiriadau uniongyrchol, yn bennaf.

Dywedodd darparwyr fod atgyfeiriadau uniongyrchol yn caniatáu ar gyfer dechrau ar unwaith, gan leihau'r risg y bydd pobl ifanc yn ymddieithrio cyn dechrau ar eu rhaglen. Mae atgyfeiriadau uniongyrchol wedi bod yn hynod werthfawr wrth nodi darpar gyfranogwyr nad oeddent yn ymgysylltu â Cymru'n Gweithio ond yr oedd angen iddynt gael y cymorth estynedig a gynigir gan y rhaglen hon.

**Atgyfeiriadau colegau**

Mae Coleg Cambria wedi datblygu systemau effeithiol ar gyfer atgyfeirio i mewn ac allan o'u darpariaeth addysg bellach eu hunain. Cafodd tua 70 o gyfranogwyr eu hatgyfeirio i raglen TSC+ ar ôl ymgymryd â chyrsiau addysg bellach amser llawn y coleg yn y gorffennol ac nid oedd hyn wedi gweithio i'r bobl ifanc dan sylw. Mewn llawer o achosion, symudodd cyfranogwyr yn ôl i ddarpariaeth addysg bellach ar ôl eu rhaglen TSC+.

## Galw a rhestrau aros cynyddol

Dywedodd llawer o ddarparwyr fod ganddynt restrau o bobl ifanc yn aros i ddechrau ar raglen TSC+, neu'u bod wedi profi hyn yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd darparwyr fod hyn oherwydd cynnydd yn y galw am leoedd nad oedd ganddynt werth contract digonol i'w fodloni. Amlygodd contractwyr fod atgyfeiriadau cyfranogwyr yn cynyddu'n gyflym ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn: yn gyntaf, ar ddechrau mis Gorffennaf, pan fydd pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 yn gadael yr ysgol, ac wedyn ar ddiwedd mis Hydref, sy'n cyd-fynd â'r dyddiad y mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg o gyrchfannau disgyblion a adawodd yr ysgol ym mis Gorffennaf. Un o ffactorau cyfrannol allweddol ychwanegol y diffyg cyllid sydd ar gael ar gyfer dechreuwyr newydd oedd bod contractwyr yn dweud bod cyfranogwyr yn aros ar raglen yn llawer hirach nag a ragwelwyd i ddechrau, a bod hyn yn defnyddio mwy o gyllid, o ganlyniad.

Roedd rhestrau aros yn fwyaf cyffredin mewn ardaloedd trefol sydd â phoblogaeth niferus, fel canol dinasoedd, gyda darparwyr yn dweud bod ganddynt restrau aros o hyd at 80 o gyfranogwyr, sydd fel arfer yn arwain at rhwng 4-8 wythnos o oedi cyn i berson ifanc allu dechrau ar ei raglen. Roedd y broblem yn hynod amlwg yng nghanol dinas Abertawe, lle roedd y ddau gontractwr arweiniol a neilltuwyd yn ymgysylltu â'r un partner sy'n is-gontractwr. Yn yr achos hwn, lle roedd y partner hwnnw'n cael problemau cyllid, roedd nifer y bobl ifanc yn rhagori ar nifer y lleoedd a oedd ar gael, ac nid oedd unrhyw ddarpariaeth TSC+ arall ar gael yn yr ardal fel dewis arall. Yn yr achosion mwyaf difrifol,

roedd cyfranogwyr yn aros am hyd at bedwar mis i ddechrau'r rhaglen, a rhai ohonynt yn ymddieithrio'n gyfan gwbl yn ystod y cyfnod hwn, ac wedyn ddim yn dechrau ar TSC+.

Mae contractwyr wedi cynnal deialog agored a gonest â Llywodraeth Cymru ynghylch materion capasiti ariannol, sydd, yn ei thro, wedi ymateb ble bynnag y bo modd trwy roi cyllid ychwanegol i leihau rhestrau aros. Adeg ein hadolygiad, roedd y rhan fwyaf o restrau aros wedi cael eu clirio, er eu bod yn parhau mewn ardaloedd lle mae llawer o alw, yn enwedig canol dinasoedd. Mae contractwyr wedi cymryd camau amrywiol i reoli'r galw yn y rhaglen, gan gynnwys sefydlu canolfannau cyflwyno newydd, peidio â chynnal rhaglenni yn yr haf, neu'n atal eu hatgyfeiriadau uniongyrchol eu hunain a chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio. Hefyd, soniodd darparwyr am y modd y maent yn blaenoriaethu pobl ifanc ar restrau aros, gan roi blaenoriaeth i gyfranogwyr sydd efallai ag ADY wedi'i nodi neu'r rhai sydd eisoes â chyflogwr yn barod i'w cymryd ar leoliad gwaith.

Adeg ein hymweliadau, y rhaniad o ran y math o atgyfeiriad oedd bod tua 55% o ddechreuwyr yn cael mynediad at TSC+ trwy atgyfeiriad uniongyrchol a 45% trwy Cymru'n Gweithio[1]. Mae cyfran yr atgyfeiriadau uniongyrchol wedi cynyddu'n raddol er haf 2022. Roedd y rhaniad o ran y math o atgyfeiriad yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ddarparwyr a'u hisgontractwyr, ac ar draws gwahanol rannau o Gymru. Er y bu rhai darparwyr yn ffafrio'r llwybr atgyfeirio uniongyrchol, roedd darparwyr eraill yn dibynnu'n gyfan gwbl ar atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio. Roedd cyfran yr atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio yn llawer uwch yn y De Orllewin (60%) a'r Gogledd (58%) na'r De Ddwyrain (35%) a'r De (29%). Dywedodd y darparwyr hynny a oedd yn dibynnu'n bennaf ar atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio fod yn well ganddynt gael y wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio fel man cychwyn ar gyfer eu perthynas â'r person ifanc, a bod hyn hefyd yn eu helpu i reoli'r galw am leoedd newydd lle roedd ganddynt gyllid cyfyngedig ar gael ar gyfer dechreuwyr newydd.

[1] Data a ddarparwyd i Estyn gan gontractwyr TSC+.

# Cyflwyno'r cwricwlwm a pharatoi ar gyfer dilyniant cyfranogwyr

## Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU)

Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn teilwra'u cynnig cwricwlwm a'u dull dysgu i weddu i broffiliau cyfranogwyr amrywiol. Roedd bron pob un ohonynt yn gwneud defnydd cadarn o Gynlluniau Dysgu Unigol (CDUau) i gofnodi dyheadau gyrfa cyfranogwyr, yn ogystal â'u hanghenion cymorth unigol. Yn yr achosion gorau, roedd CDUau yn dilyn dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn, lle roedd cyfranogwyr yn cytuno ar a thrafod cynnwys y CDU, a oedd yn cael ei addasu trwy asesiadau ac adolygiadau cynnydd rheolaidd. Mae rhai contractwyr arweiniol wedi alinio'r CDU ar gyfer yr holl bartneriaid cyflwyno â ffurflen yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio; mae hyn yn sicrhau bod y wybodaeth allweddol am berson ifanc yn cael ei chofnodi yn y CDU a'i bod ar gael ar gyfer pob un o'r staff allweddol sy'n gysylltiedig â rhaglen y cyfranogwr. Fodd bynnag, mewn ychydig o ganolfannau yr ymwelwyd â nhw, nid oedd CDUau yn cynnwys targedau personoledig neu rai sydd â ffocws ar ddilyniant yn gyson.

## Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Roedd systemau a phrosesau darparwyr ar gyfer nodi a chefnogi cyfranogwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol, ar y cyfan. Dywedodd darparwyr wrthym eu bod yn nodi ADY trwy ddata atgyfeirio a phrosesau diagnostig. Roedd cymorth ADY, yn nodweddiadol, yn cynnwys cymorth ymgorfforedig, a gyflwynir yn bennaf trwy diwtoriaid ac anogwyr swyddi, ac mewn ychydig o achosion, staff cymorth ADY dynodedig a oedd yn cael eu rhannu rhwng canolfannau. Roedd llawer o ddarparwyr partner yn elwa ar gysylltiadau â thimau cynhwysiant ehangach y contractwr arweiniol, fel Cydlynwyr ADY, a oedd yn cynnig cymorth a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff sy'n darparu cymorth ADY.

Gall darparwyr ddyrannu cyllid penodol ar gyfer cyfranogwyr ag anhawster dysgu neu ADY, er bod y cynnydd hwn yn cael ei ymgorffori o fewn gwerthoedd contract presennol darparwyr, nid fel cronfa ychwanegol. O'r herwydd, mae'r nifer sy'n manteisio ar gyllid ADY wedi gostwng gan fod mwy o ddarparwyr wedi cyrraedd eu capasiti gwerth contract cyffredinol, a darparwyr wedi ymgorffori'r costau ar gyfer cymorth ADY o fewn eu hadnodd prif ffrwd. Roedd dealltwriaeth darparwyr o'r cyllid ADY penodol ar gyfer cyfranogwyr yn amrywio. Mewn ychydig o achosion, roedd partneriaid sy'n isgontractwyr dan yr argraff nad oedd cyfranogwyr yn gymwys i fanteisio ar gymorth penodol heb Gynllun Datblygu Unigol (CDU), ac nid yw hyn yn gywir yn ôl manyleb rhaglen TSC+ (Llywodraeth Cymru, 2024, tud. 75).

## Elfen ymgysylltu

Mae mwyafrif y cyfranogwyr, ni waeth beth yw eu llwybr atgyfeirio, yn dechrau rhaglen TSC+ ar yr elfen ymgysylltu[2]. Fel y canfuwyd yn ystod ein hymweliadau monitro blaenorol (Estyn, 2023), roedd llawer o gyfranogwyr yn dechrau ar y rhaglen gyda rhwystrau sylweddol rhag dechrau cyflogaeth neu addysg bellach neu hyfforddiant, fel pryderon iechyd meddwl, gorbryder, a diffyg hunanhyder. Dywedodd darparwyr fod problemau ymddygiad gwael ymhlith cyfranogwyr hefyd wedi dod yn destun pryder, yn llawer mwy nag ydoedd adeg yr ymweliadau monitro cychwynnol. Dywedodd un darparwr fod rhaid defnyddio mesurau diogelwch ychwanegol yn rhai o'u canolfannau yng nghanol dinasoedd, ac o'u cwmpas, oherwydd achosion difrifol o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â chyfranogwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Roedd darparwyr yn rhoi pwyslais cryf ar les trwy weithgareddau ymgysylltu strwythuredig a chymorth targedig. Roedd y ddarpariaeth yn cynnwys sesiynau oedd yn canolbwyntio ar reoli gorbryder, ffyrdd iach o fyw a datblygiad personol. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio gwasanaethau cymorth penodol fel anogwyr gwydnwch a chwnsleriaid fel rhan o'u seilwaith cymorth a oedd ar gael i gyfranogwyr eu defnyddio. Roedd bron pob un o'r cyfranogwyr yn mynychu sesiynau rheolaidd a gorfodol er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o faterion fel diogelu, radicaleiddio ac eithafiaeth. Dywedodd cyfranogwyr wrthym fod darparwyr yn aml yn cyflwyno sesiynau defnyddiol ar bynciau cyfoes a oedd yn helpu codi ymwybyddiaeth am sut gallant gadw eu hunain yn ddiogel ar faterion fel llinellau cyffuriau a throseddau â cyllyll.

Roedd rhai darparwyr yn cynllunio'u rhaglenni ymgysylltu yn unol â cherrig milltir penodol a dyddiadau dilyniant allweddol, tra bod darparwyr eraill yn cynnig ymagwedd hyblyg at ddilyniant yn seiliedig ar ffafriaeth cyfranogwr unigol. Adeg ein hymweliadau, hyd cyfartalog y rhaglen ar gyfer cyfranogwyr ar yr elfen ymgysylltu oedd 26 wythnos, er bod amrywiad sylweddol rhwng darparwyr. Mewn un darparwr, roedd hyd amser cyfartalog cyfranogwyr ar y rhaglen ymgysylltu wedi mwy na dyblu ers dechrau'r contract o 14 wythnos i 30 wythnos. Cyfarfu'r tîm â nifer o gyfranogwyr sydd wedi aros ar y rhaglen ymgysylltu am dros flwyddyn, heb unrhyw gynllun dilyniant clir ar waith. Yn aml, roedd y rhain yn gyfranogwyr a oedd wedi dod o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac yn wynebu'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol rhag dilyniant.

[2] Adroddwyd gan gontractwyr TSC+ yn uniongyrchol i Estyn.

### Darpariaeth gymunedol

Ac yntau'n bartner darparwr Coleg Cambria yn Wrecsam, mae darpariaeth Partneriaeth Parc Caia yng nghanol cymuned Parc Caia ac yn arbenigo mewn cyflwyno rhaglenni ymgysylltu ar gyfer cyfranogwyr sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Mae gan y darparwr gysylltiadau cryf â chynghorwyr gyrfa lleol, sy'n nodi bod Partneriaeth Parc Caia yn ddarparwr sy'n fwy hygyrch ac addas i anghenion cyfranogwyr â rhwystrau sylweddol. Ceir croesgyfeirio effeithiol rhwng y coleg a Phartneriaeth Parc Caia sy'n galluogi cyfranogwyr i gael eu hatgyfeirio i'r ddarpariaeth gywir yn dibynnu ar eu hangen unigol.

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnal rhaglen orfodol o dan eu helfen ymgysylltu sy'n ymgorffori datblygiad medrau craidd, gan ymgorffori medrau llythrennedd a rhifedd trwy gydol y cyflwyno. Caiff Profion Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) eu defnyddio'n helaeth gan ddarparwyr i nodi meysydd i'w datblygu a monitro cynnydd. Mewn ychydig o achosion, caiff medrau eu cyd-destunoli yn ôl diddordebau a nodau gyrfa'r cyfranogwyr, gan eu gwneud yn fwy perthnasol a hygyrch. Roedd llawer o gyfranogwyr yn datblygu eu medrau digidol i raddau priodol, ar y cyfan, yn rhan o'u rhaglen. Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw gynnwys cwricwlwm yn gysylltiedig â Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cael ei gyflwyno. Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr eu bod yn y dyddiau cynnar o ran datblygiad AI, a bod gweithgareddau dysgu proffesiynol yn cael eu cyflwyno i godi ymwybyddiaeth staff cyn cael eu hymgorffori fel rhan o gyflwyno craidd.

### Cwricwlwm unigoledig

Mae partner cyflwyno Grŵp Llandrillo Menai, sef COPA Training, yn darparu cynnig cwricwlwm eang o dan ei system 'Bud'. Mae cyfranogwyr yn dewis eu modiwlau eu hunain ar sail eu ffafriaethau unigol o gyfres o fwy nag 80 o opsiynau mewn sectorau fel adeiladu, hamdden, chwaraeon, lletygarwch a thwristiaeth, y maent yn eu hastudio ochr yn ochr â modiwlau gorfodol ar bynciau fel diogelu a rhaglen arweiniad gyrfaoedd.

Mae darparwyr yn wynebu cydbwysedd anodd rhwng cynnig cymorth i gyfranogwyr ar gyfer y rhwystrau lluosog y maent yn eu hwynebu, tra'n ymestyn cyfranogwyr i gyflawni eu llawn botensial, hefyd. Yn ystod ein hymweliadau, cyfarfuom â llawer o gyfranogwyr ar yr elfen ymgysylltu yr oedd yn ymddangos eu bod yn abl i symud ymlaen i ddilyn cwrs rhagflas gwaith neu leoliad gwaith, ond roeddent yn amharod i wneud hynny. Dywedon nhw fod yn well ganddynt fynychu'r ganolfan lle gallant dreulio amser gyda ffrindiau a chael sicrwydd y cymorth bugeiliol gan eu tiwtoriaid a'u hanogwyr. Codwyd pryderon gan

lawer o gyfranogwyr y byddai symud ymlaen i gyflogaeth yn cael effaith niweidiol ar y budd-daliadau y mae eu rhieni neu'u gofalwyr yn gymwys i'w hawlio.

Yn yr enghreifftiau gorau, roedd cyfranogwyr ar yr elfen ymgysylltu sydd â syniad bras am y math o waith y byddai ganddynt ddiddordeb ynddo, yn cael eu gosod mewn grwpiau penodol i sector, fel gwallt a harddwch, gofal, gweinyddu busnes, twristiaeth neu TG. Yn yr achosion hyn, roedd cyfranogwyr yn elwa ar ymweliadau cyflogwyr, siaradwyr gwadd, a sesiynau dysgu cyd-destunol, y dywedodd cyfranogwyr wrthym eu bod wedi rhoi mewnwelediadau effeithiol iddynt i'w diwydiannau amrywiol. Mewn ychydig o achosion, roedd cyfranogwyr ymgysylltu yn manteisio ar gyfleoedd lleoliad gwaith hefyd, yn gysylltiedig â'r sector o'u dewis nhw. Dywedodd cyfranogwyr wrthym fod y cyfleoedd hyn yn eu helpu i gael dealltwriaeth bywyd go iawn o fyd gwaith ac yn eu cefnogi i symud ymlaen i'r elfen datblygu neu gyrchfannau dilyniant cadarnhaol eraill.

### Ffocws galwedigaethol

Yng Ngholeg Sir Benfro, caiff pob un o'r cyfranogwyr ar yr elfen ymgysylltu eu grwpio mewn grwpiau yn benodol i sector pan fyddant yn ymuno â'r rhaglen, ac maent yn gweithio tuag at ddod o hyd i leoliad profiad gwaith mewn lleoliadau fel lletygarwch, manwerthu ac addysg, fel arfer yn eu hail dymor neu'n gynharach, os ydynt yn teimlo'n barod. Mae'r coleg yn cynnig cymorth i gyfranogwyr fanteisio ar leoliadau, ond hefyd yn galluogi'r rhai sy'n abl i berchnogi eu lleoliad eu hunain. O ganlyniad, mae llawer o gyfranogwyr yn symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth cyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Adeg ein hymweliadau, roedd tua dau o bob tri o gyfranogwyr yr elfen ymgysylltu yn cael dilyniant cadarnhaol i ddysgu pellach neu gyflogaeth, a'r mwyafrif ohonynt yn symud ymlaen i ddysgu lefel uwch, gan gynnwys symud ymlaen i'r elfen datblygu[3]. Mae ychydig o ddysgwyr ymgysylltu yn symud ymlaen yn uniongyrchol i gyflogaeth. Nid yw'r mesur llwyddiant dilyniant cadarnhaol yn cofnodi'n gywir y llwyddiannau gan rai cyfranogwyr ar yr elfen ymgysylltu, yn enwedig y rhai sy'n dechrau'r rhaglen bellaf oddi wrth y farchnad lafur. I lawer, mae mynychu eu sesiynau'n fwy rheolaidd, datblygu eu medrau cymdeithasol neu feithrin lefelau hyder yn dangos cynnydd o'u mannau cychwyn unigol. Fodd bynnag, nid yw'r llwyddiannau hyn yn cael eu cofnodi gan gyfraddau dilyniant cadarnhaol, o reidrwydd. Gallai mesurau llwyddiant mwy 'meddal', yn enwedig ar yr elfen ymgysylltu ar gyfer y cyfranogwyr hynny sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag dilyniant, helpu darparu cerrig milltir buddiol ac ymdeimlad o gyflawni i'r cyfranogwyr hynny.

[3] Data a ddarparwyd gan gontractwyr TSC+ i Estyn.

### Elfen datblygu

Adeg ein hymweliadau, roedd tua thraean o gyfranogwyr yn dilyn yr elfen datblygu. Roedd y rhaniad rhwng ymgysylltu a datblygu yn amrywio’n sylweddol. Roedd ychydig iawn o gyfranogwyr ar yr elfen datblygu mewn un darparwr, ond mewn darparwr arall, roedd mwy na hanner y cyfranogwyr yn gweithio ar yr elfen datblygu. Yn yr achos hwn, roedd o ganlyniad i raglen strwythuredig gyda cherrig milltir clir i gyfranogwyr symud ymlaen o ymgysylltu i ddatblygu.

Mewn llawer o achosion, roedd cyfranogwyr ar yr elfen datblygu yn cael lleoliad gwaith o fewn rhyw chwe wythnos o ddechrau ar yr elfen. Yn yr achosion gorau, roedd cyfranogwyr yn gweithio mewn lleoliadau yn addas i’w sector galwedigaethol dewisol, ac fel arfer yn mynychu lleoliad hyd at bedwar neu bum niwrnod yr wythnos ac yn gweithio tuag at gymwysterau medrau galwedigaethol a hanfodol y sector ar yr un pryd mewn sectorau fel cynnal a chadw cerbydau neu wallt a harddwch.

#### Ystod o lwybrau galwedigaethol

Mae ACT yn cynnig ystod eang o lwybrau galwedigaethol ar gyfer cyfranogwyr datblygu. Yng Nghaerdydd, mae canolfan medrau ACT yn cynnig cyfleusterau dysgu addas yn benodol i ddiwydiant ar gyfer sectorau fel adeiladu, cerbydau modur a gofal anifeiliaid. Mae eu partner cyflwyno, sef Hyfforddiant Ceredigion Training, yn cynnig llwybrau tebyg ar gyfer cyfranogwyr yng Ngheredigion lle mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi’r rhaglen datblygu fel llwybr effeithiol i brentisiaeth am dâl, ac mae cyfranogwyr yn mynychu’r gweithle am bedwar diwrnod yr wythnos tra’n gweithio tuag at gymwysterau lefel 1 yn eu maes galwedigaethol dewisol.

Mae argaeledd cymwysterau sy’n benodol i sector ar Lefel 1 neu'n is, fodd bynnag, yn amrywio’n sylweddol ar draws gwahanol gontractwyr a rhanbarthau. Mewn rhai ardaloedd, caiff cyfranogwyr ystod eang o ddewis darpariaeth mewn sectorau fel adeiladu, cynnal a chadw cerbydau, gofal, lletygarwch a thwristiaeth a manwerthu. Mewn rhanbarthau eraill, fodd bynnag, mae rhaglenni achrededig wedi’u cyfyngu’n fwy i gymwysterau cyflogadwyedd cyffredinol. Pan mae llwybrau galwedigaethol yn fwy cyfyngedig, dywed partneriaid atgyfeirio fod y galw am y lleoedd hyn yn aml yn rhagori ar yr argaeledd, sy’n golygu bod rhaid rhoi cyfranogwyr ar restrau aros.

At ei gilydd, mae cynllunio’r cwricwlwm ar gyfer llwybrau galwedigaethol, yn dibynnu ar argaeledd a chymhwysedd galwedigaethol staff cyflwyno darparwyr. Mewn ychydig o achosion, roedd darparwyr yn cyflwyno cyrsiau newydd o ganlyniad i’r galw gan gyfranogwyr mewn meysydd fel adeiladu a gwallt a harddwch. Mae gan y rhan fwyaf o gontractwyr gysylltiadau â’u partneriaethau sgiliau rhanbarthol priodol trwy

gynrychiolaeth byrddau neu is-grwpiau. Fodd bynnag, adeg yr adolygiad hwn, nid oedd darpariaeth TSC+ yn cael ei chynllunio'n fwriadol i alinio ag anghenion medrau lleol neu ranbarthol fel y nodwyd gan bartneriaethau sgiliau rhanbarthol.

Her barhaus i ddarparwyr oedd gallu cynnig cyfleoedd lleoliad gwaith ystyrlon ar gyfer yr holl gyfranogwyr. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn defnyddio timau penodol i ymgysylltu â chyflogwyr sy'n mynd ati i ddod o hyd i leoliadau gwaith ar draws ystod eang o sectorau. Er bod argaeledd cyflogwyr sy'n fodlon cymryd cyfranogwyr ar leoliad wedi bod yn cynyddu'n raddol, roedd heriau'n parhau o ran dod o hyd i ddigon o leoliadau i gynnig cyfleoedd lleoliad i bob un o'r cyfranogwyr, yn enwedig mewn rhai meysydd sy'n gyson heriol, fel TG, lletygarwch, a chyfrifyddiaeth. Dywedodd darparwyr wrthym hefyd ei bod yn dod yn amlwg fod lleoliadau lleoli'r trydydd sector, fel siopau elusen, sef y man cychwyn yn aml ar gyfer lleoli cyfranogwyr ar TSC+, yn cynnig llai o brofiadau lleoliad nag a gawsant yn y gorffennol. O ganlyniad, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd cyfranogwyr ar yr elfen datblygu yn mynd ar leoliad gwaith ac roeddent yn parhau i fynychu eu canolfannau cyflwyno yn amser llawn. Mewn ychydig o achosion, er y gallai cyfranogwyr fod wedi cofrestru ar gymwysterau cyflogadwyedd lefel 1, roedd ychydig iawn o wahaniaeth rhwng y cwricwlwm sy'n cael ei gynnig o dan raglenni datblygu ac ymgysylltu, ac mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd unrhyw wahaniaeth o gwbl.

Adeg ein hymweliadau, roedd ychydig dros ddau o bob tri o gyfranogwyr yr elfen datblygu yn cael dilyniant cadarnhaol i ddysgu pellach neu gyflogaeth, a'r mwyafrif ohonynt yn symud ymlaen i gyflogaeth amser llawn, gan gynnwys prentisiaethau. Mae ychydig o gyfranogwyr yr elfen datblygu yn symud ymlaen i ddysgu pellach ar lefel uwch, ac ar sail ein trafodaethau â darparwyr a chyfranogwyr, roedd hyn yn aml mewn darpariaeth alwedigaethol mewn coleg addysg bellach lleol.

## Elfen gyflogaeth

Ers dechrau'r rhaglen TSC+, ychydig iawn o gyfranogwyr sydd wedi manteisio ar y lleoliad chwe mis â chymhorthdal cyflog o dan yr elfen gyflogaeth. Dywedodd darparwyr fod ystod o resymau am ddiffyg poblogrwydd y rhaglen, gan gynnwys gofynion rhy fiwrocrataidd i allu cael cyllid, amharodrwydd cyflogwyr i ymrwymo i gyfleoedd cyflogaeth cynaledig, ac nid oedd cyfranogwyr yn barod ar gyfer yr elfen hon.

Gan fod argaeledd cyllid ar gyfer elfennau eraill yn dod yn fwy o her i ddarparwyr, mae'r elfen gyflogaeth wedi dod yn llai o flaenoriaeth, ac roedd un darparwr wedi rhoi'r gorau i'w chynnig yn gyfan gwbl, yn strategol. Mae'n nodedig fod pob un o bum contractwr arweiniol TSC+, a'r rhan fwyaf o'r partneriaid sydd wedi'u hisgontractio, hefyd yn ddarparwyr prentisiaethau yng Nghymru. Hefyd, nid yw'r diffyg defnydd o'r elfen gyflogaeth wedi cael effaith niweidiol ar ddilyniant, o reidrwydd, ac mae llawer o gyfranogwyr yn symud ymlaen

i ddysgu pellach neu'n uniongyrchol i gyflogaeth neu brentisiaeth lefel 2 yn hytrach nag elfen gyflogaeth TSC+.

## Profiadau cyfranogwyr

### Profiad cychwynnol

Dywedodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr fod eu proses atgyfeirio yn effeithiol ac yn effeithlon, a bod eu profiad yn gadarnhaol, ar y cyfan. Roedd llawer ohonynt yn dechrau ar eu rhaglenni o fewn pythefnos o'u hatgyfeiriad. Pan roeddent wedi cael mynediad at y rhaglen trwy atgyfeiriad uniongyrchol, roeddent yn aml yn dechrau ar unwaith neu o fewn ychydig ddyddiau. Yn yr achosion gorau, dywedodd cyfranogwyr y bu cyfathrebu cryf rhwng eu cynghorwyr gyrfaoedd, eu darparwr a'u rhieni neu'u gofalwyr, yn ystod y broses atgyfeirio. Yn aml, byddai darparwyr yn gwahodd cyfranogwyr, eu cynghorydd gyrfaoedd a'u rhieni i'r ganolfan i adolygu'r lleoliad, sgwrsio â staff y darparwr a chael dealltwriaeth lawn o'r hyn y gallant ei ddisgwyl o raglen TSC+. Fodd bynnag, roedd rhaid i ychydig o gyfranogwyr aros wythnosau lawer i ddechrau ar eu rhaglen, a dywedodd ychydig iawn ohonynt nad oedd y darparwr wedi cysylltu llawer â nhw o gwbl yn ystod eu cyfnod aros.

Nododd llawer o gyfranogwyr fod eu hymwybyddiaeth o raglen TSC+ yn gyfyngedig iawn cyn ymuno neu gael eu hatgyfeirio. Dywedon nhw fod enw'r rhaglen yn ddryslyd iddyn nhw a'u rhieni ynghylch beth fyddai'r rhaglen yn ei olygu a llwybrau dilyniant.

### Cymorth ar gyfer angen unigol

Roedd bron pob un o'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth bugeiliol cryf yr oeddent yn ei gael gan eu darparwyr, a llawer ohonynt yn dweud am welliannau mewn hyder, gwydnwch a lles. Dywedon nhw fod eu darparwr yn dod i'w hadnabod yn dda ac yn addasu eu darpariaeth ar gyfer eu hanghenion unigol, gan gynnwys unrhyw ADY a allai fod ganddynt. Roedd cyfranogwyr yn croesawu'r ymagwedd bersonoledig a theilwredig yr oeddent yn ei chael gan eu tiwtoriaid a'u staff cymorth, yn enwedig y rhai a oedd yn cael trafferth yn yr ysgol neu'r coleg yn y gorffennol.

Dywedodd llawer o gyfranogwyr fod eu darparwyr yn gwrando ar eu barn trwy gyfarfodydd, fforymau, arolygon ac adolygiadau cynnydd rheolaidd. Yn yr achosion gorau, roeddent yn addasu eu darpariaeth ar sail yr adborth gan gyfranogwyr.

### Llais y cyfranogwr

Mae ITEC yn defnyddio ystod o fecanweithiau adborth strwythuredig, gan gynnwys fforymau cyfranogwyr chwarterol, arolygon cyfranogwyr a mannau cyswllt lles digidol rheolaidd sy'n holi cyfranogwyr am eu hiechyd a'u lles. Mae ITEC yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn i ddadansoddi sut gallant wella profiadau ar lefel canolfan i gyfranogwyr, ac o ganlyniad, wedi cyflwyno gweithgareddau newydd ac wedi mireinio'u cynnwys cwricwlwm i ddiwallu anghenion cyfranogwyr yn well. Dywed cyfranogwr, 'Mae'n wych gwybod bod ein barn wir yn cyfri. Mae'r newidiadau rydyn ni'n eu hawgrymu yn cael eu cymryd o ddifri, ac rydyn ni wedi gweld gwelliannau go iawn yn ein canolfan.'

### Datblygiad medrau

Esboniodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr sut roedd eu rhaglen wedi eu helpu i wella'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Buont yn trafod y modd y maent yn gweithio'n rheolaidd ar dasgau trwy WEST ac yn defnyddio cyd-destunau diwydiant neu gyd-destunau perthnasol bywyd go iawn, er enghraifft trwy gynllunio ariannol ac efelychiadau gweithle. Roedd datblygiad medrau Cymraeg cyfranogwyr yn amrywiol ac ar ei gryfaf yng Ngogledd Orllewin Cymru, lle roedd carfanau o gyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg yn COPA Training yn cael eu hannog i ddefnyddio'u medrau Cymraeg a datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru ymhellach. Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn ymgorffori cyfarchion ac ymadroddion syml eraill yn Gymraeg yn eu rhaglen graidd, ychydig iawn o gyfranogwyr y buom yn siarad â nhw oedd yn gallu galw i gof eu bod wedi datblygu eu medrau Cymraeg ers dechrau ar TSC+.

Dywedodd llawer o gyfranogwyr fod eu darparwyr yn integreiddio modiwlau ar faterion fel diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac ystod o sesiynau lles ac ymwybyddiaeth gymdeithasol. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd cyfranogwyr yn gallu galw i gof eu bod wedi trafod testunau'n ymwneud â gwrth-hiliaeth fel rhan o sesiynau cynhwysiant ac amrywiaeth ehangach. Fodd bynnag, roedd ychydig o gyfranogwyr o'r farn fod gormod o bwyslais ar weithgareddau lles ar draul medrau cyflogadwyedd, a byddai'n well ganddynt gael cydbwysedd gwell rhwng cymorth lles a dysgu sy'n benodol i yrfa sy'n eu helpu i wneud cynnydd tuag at fod yn fwy parod at waith.

### Paratoi ar gyfer dilyniant

Roedd llawer o gyfranogwyr o'r farn fod y gefnogaeth gan ddarparwyr wrth gynllunio'u camau nesaf a'u llwybrau dilyniant yn effeithiol. Roedd cyngor ac arweiniad gyrfaoedd yn cael eu cyflwyno'n bennaf trwy sesiynau grŵp ac adolygiadau cynnydd un i un, lle mae cyfranogwyr yn dysgu sut i ddatblygu CV, mireinio technegau cyfweld a chynnal

chwiliadau swyddi effeithiol. Yn yr achosion gorau, roedd cyfranogwyr, yn enwedig ar yr elfen datblygu, yn teimlo'u bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'w cam nesaf, gan yn aml symud yn syth i gyflogaeth neu brentisiaethau ar ôl lleoliadau gwaith estynedig.

I'r cyfranogwyr hynny sydd wedi cael a chynnal lleoliad gwaith, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn hynod werthfawr. Dywedon nhw fod yr amser yr oeddent yn ei dreulio ar eu lleoliadau yn rhoi profiad uniongyrchol allweddol iddynt, a chymorth a mentoriaeth gan eu cyflogwyr a'u mentoriaid yn y gweithle. Disgrifiodd un cyfranogwr y cyfnod a dreuliodd ar leoliad gwaith fel cyfnod a 'newidiodd ei fywyd', ac ers hynny, mae wedi symud ymlaen i ddilyn prentisiaeth gyda'r un cyflogwr. Roedd ychydig o gyfranogwyr yn disgwyl gallu mynd ar leoliadau gwaith yn gyflymach nag yr oeddent ar gael. Pan ofynnwyd iddynt am eu rhaglenni a'u cynlluniau ar gyfer dilyniant, nid oedd lleiafrif o gyfranogwyr yn gallu nodi ar ba elfen oeddent, neu nid oeddent yn ymwybodol o'r cyfleoedd i symud ymlaen o un elfen i'r llall.

### Gweithgareddau cyfoethogi

Mae bron pob un o'r darparwyr wedi gwneud defnydd hynod effeithiol o gyllid 'adnewyddu a diwygio' ychwanegol i ariannu sesiynau cyfoethogi rhaglenni oddi ar y safle i barhau i ymgysylltu â chyfranogwyr.

Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â chyflogwyr, cymryd rhan mewn prosiectau cymunedol, meithrin tîm a gweithgareddau hamdden egnïol. Roedd bron pob un o'r cyfranogwyr yn rhoi gwerth uchel ar y profiadau hyn, y dywedon nhw eu bod yn eu helpu i oresgyn problemau'n ymwneud â gorbryder cymdeithasol ac ymddieithrio, ac yn datblygu medrau gwaith tîm a chymdeithasol cryfach. Yn yr achosion gorau, roedd cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'w canolfannau hyfforddi bron bob wythnos.

### Gweithgarwch adnewyddu a diwygio

Mae darparwyr BWBL wedi gwneud defnydd da o gyllid 'adnewyddu a diwygio' i gynnig gweithgareddau cyfoethogi i gyfranogwyr sy'n mynd i ffwrdd ar ymweliadau diwydiant a thripiau lles. Er enghraifft, mae cyfranogwyr cerbydau modur yn mynychu canolfan gartio lle maent yn cael dysgu am gyfansoddiad y ceir bach, gofynion iechyd a diogelwch, yn ogystal â chael diwrnod allan hwyliog, a chydweithio fel tîm. Yn ôl adborth gan un cyfranogwr, 'Rydw i wedi bod i fwy o leoedd ar raglen TSC+ nag ydw i wedi gyda fy nheulu trwy gydol fy mywyd'.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

I lywio'r adroddiad hwn, ymwelodd y tîm â phob un o'r pum contractwr arweiniol, gan gynnwys 21 o bartneriaid sy'n isgontractwyr, ar draws cyfanswm o 49 o ganolfannau cyflwyno TSC+ ledled Cymru. Cynhaliwyd yr ymweliadau hyn ym mis Chwefror a mis Mawrth 2025. Yn ystod ein hymweliadau, defnyddiodd y tîm amrywiaeth o ddulliau i gasglu tystiolaeth i gefnogi'r adolygiad hwn:

- Arsylwi sesiynau i asesu ymgysylltiad cyfranogwyr a chyflwyno cynnwys
- Siarad â chyfranogwyr yn ystod grwpiau ffocws ac yn anffurfiol yn ystod sesiynau i gasglu adborth ar effeithiolrwydd rhaglenni ac effaith bersonol
- Craffu'n fanwl ar brosesau atgyfeirio
- Gwerthuso effeithiolrwydd cyflwyno'r cwricwlwm i fynd i'r afael â bylchau ym medrau cyfranogwyr
- Dadansoddi gwybodaeth allweddol am berfformiad gan reolwyr rhaglenni Llywodraeth Cymru ar draws y contract, fel niferoedd cyfranogwyr, rhaniad pob un o elfennau'r rhaglen a deilliannau dilyniant cadarnhaol
- Cyfarfod ag wyth o gyflogwyr wrth arsylwi gweithgarwch yn cael ei gynnal yn y gweithle ar draws sectorau, gan gynnwys addysg, cynnal a chadw cerbydau, lletygarwch a manwerthu
- Cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys staff darparwyr, rheolwyr cyfrifon allweddol Cymru'n Gweithio a staff awdurdodau lleol, a Chydlynwyr Addysg a Dilyniant (EPC) yn benodol, trwy gyfarfodydd ar y safle a thrwy gyfarfodydd ar-lein

Dadansoddwyd y dystiolaeth a gasglwyd i fynd i'r afael â ffocysau'r adroddiad:

- Gwerthuso'r prosesau atgyfeirio a phrofiadau cyfranogwyr
- Pa mor dda y mae cyflwyno'r cwricwlwm yn diwallu anghenion amrywiol cyfranogwyr ac yn eu paratoi ar gyfer symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwil.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ADY** | Angen Dysgu Ychwanegol |
| **ARR** | Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio |
| **CDU** | Cynllun Datblygu Unigol |
| **Contractwr** | Yn cyfeirio at y pum contractwr arweiniol sydd dan gontract i gyflwyno TSC+ ar draws pedwar rhanbarth Cymru |
| **Darparwr** | Unrhyw ddarparwr sy'n cyflwyno rhaglenni TSC+ ar draws y tair elfen. Gallai hwn fod yn gontractwr arweiniol neu'n unrhyw un o'u partneriaid cyflwyno sydd wedi'u his-gontractio |
| **EPC** | Cydlynydd Addysg a Dilyniant |
| **NACH** | Pobl Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| **PSRh** | Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |
| **SAB** | Sefydliad Addysg Bellach |
| **TSC+** | Rhaglen Twf Swyddi Cymru+ |
| **WEST** | Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru |

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Allies, O., Abekhon, J., Gallagher, P., Griffiths, E., Rao, S. a Tanner, S. (2024) *Gwerthusiad Ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: Adroddiad Interim.* Ar gael ar-lein: Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru+: adroddiad interim | LLYW.CYMRU (Darllenwyd 16 Ebrill 2025)

Estyn (2023). *Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+: Mewnwelediadau hydref 2023.* Ar gael ar-lein: Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+: Mewnwelediadau hydref 2023 - Estyn (Darllenwyd 16 Ebrill 2025)

Llywodraeth Cymru. (2024). *Manyleb Rhaglen Ieuenctid Twf Swyddi Cymru+ (Fersiwn 1.4).* Ar gael ar-lein: Manyleb Rhaglen Twf Swyddi Cymru+ | LLYW.CYMRU (Darllenwyd 16 Ebrill 2025)

Llywodraeth Cymru. (2021). Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol (Darllenwyd 5 Mehefin 2025]